**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-599
Ein cyf/Our ref EH/05282/14

William Powell AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

10 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch Deiseb P-04-599, oddi wrth Chris Harris, sy'n gofyn am adolygiad trylwyr o Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 ac am adolygiad o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer marchnata twristiaeth.

Rwy'n ymwybodol o'r effaith y mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010 weid'i chael ar fusnesau. O ganlyniad, rwyf wedi comisiynu'r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw i gynnal adolygiad annibynnol o effeithiau'r Gorchymyn. Rhoddodd y Sefydliad ystyriaeth i safbwyntiau amrywiaeth eang o fusnesau a pherchnogion eiddo hunanddarpar yn ogystal â sefydliadau sy'n cynrychioli'r diwydiant a chyrff perthnasol eraill.

Lansiwyd chwe wythnos o gyfnod ymgynghori ar ôl cyhoeddi adroddiad y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw, ac fe'i hysbysebwyd drwy borthol ymgynghori ar-lein Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn uniogolion, perchnogion llety hunanddarpar a chynrychiolwyr y fasnach hunanddarpar. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r crynodeb o'r ymatebion i'w gweld yma:

http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/non-domestic-rating-consul/?status=open&lang=cy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn dilyn yr adolygiad cychwynnol hwn, mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i edrych ar eiddo hunanddarpar yng Nghymru er mwyn pennu pa gamau y dylid eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw newidiadau posibl yn y ddeddfwriaeth. Un o'r ystyriaethau yw a ddylid llunio unrhyw ganllawiau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac i Awdurdodau Lleol.

Cafodd strategaeth farchnata twristiaeth Llywodraeth Cymru ei llunio ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r diwydiant twristiaeth ac â rhanddeiliaid eraill. Mae'r strategaeth yn ymdrin â phob math o dwristiaeth yng Nghymru; mae'n cydnabod gwerth yr amrywiaeth eang a gynigir i ymwelwyr ac mae'n rhoi'r un pwysigrwydd i bob sector. Caiff y strategaeth a'r ymgyrchoedd marchnata eu monitro drwy gydol y flwyddyn gyda chanllawiau gan Fwrdd Cynghori Twristiaeth Cymru.

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr o'r sector hunanddarpar ac mae trafodaethau ar y gweill gydag asiantaethau hunanddarpar ynghylch hyrwyddo'r sector hwn ymhellach i'r farchnad deuluol o fewn y DU fel rhan o'n hymgyrch farchnata ni ym mis Ionawr 2015.

Rwy'n hyderus y bydd yr adolygiadau a gynhaliwyd a'r trefniadau presennol yn ddigonol ac nad oes angen cymryd camau pellach ar hyn o bryd.